Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Tachwedd 2026

TEITL: Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27-2029/30

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) cysylltiedig i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd am gymeradwyaeth.

1.2. Roddwyd ystyriaeth i ddrafftiau cychwynnol y dogfennau gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar 25 Medi.
Adroddiad Blaen
Atodiad 1 – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Atodiad 2 – Cynllun Ariannol Tymor Canolig

1.3. Ar ôl gwneud addasiadau i'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt gan y CBC, cawsant eu craffu gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Hydref.
Adroddiad Blaen
Atodiad 1 – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Atodiad 2 – Cynllun Ariannol Tymor Canolig

1.4. Mae sylwadau ac arweiniad a ddarparwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi eu hystyried wrth baratoi'r fersiwn a gyflwynir i'r cyfarfod yma.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 2.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi Egwyddorion Strategol lefel uchel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o dan y penawdau canlynol:

- Dewisiadau cynaliadwy
- Cyllid a mantolen wydn
- Portffolio cyflawnadwy ac adnoddau corfforaethol
- Llywodraethu a phartneriaeth dryloyw

3.2. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y CBC yn gwneud dewisiadau ariannol cynaliadwy, yn rheoli ansicrwydd ac yn cynnal y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i raglenni rhanbarthol y cytunwyd arnynt dros y cyfnod CATC arfaethedig. Mae'n gosod y fframwaith strategol, archwaeth risg, rheolau penderfynu a disgwyliadau llywodraethu y mae'r CATC yn

cael ei baratoi, ei herio, ei gymeradwyo a'i fonitro. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i diweddaru yn unol â'r cynllun ariannol.

3.3. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027.

3.4. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid mewn incwm y bydd y CBC yn ei dderbyn dros y cyfnod (yn bennaf trwy ardoll a Grant y Llywodraeth), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

3.5. Bydd mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn caniatáu i'r CBC ystyried y gwaith sydd ei angen i greu cynlluniau manwl i fynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer 2027/28 – 2029/30. Ar ôl mabwysiadu'r CATC, bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2027/2028 yn cael ei chyflwyno i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Rhagfyr 2026 ac yna i Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar 29 Ionawr 2027, fel sy'n ofynnol gan statud.

Crynodeb

3.6. Nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol:

- Ni ragwelir unrhyw danwariant ar weithgareddau CBC ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27.
- Ni fyddai defnyddio holl gronfeydd wrth gefn y CBC (ar wahân i 5% o'r gyllideb gros i'w chadw fel cronfa wrth gefn gyffredinol) yn ddigonol i ganiatáu rhewi'r cynnydd ardoll, heb sôn am ohirio'r ardoll ar gyfer 2027-28.
- Byddai gohirio'r ardoll ar gyfer 2027-28 yn golygu bwlch ariannu o dros £1m a fyddai'n arwain at y CBC yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau statudol neu bennu cyllideb gyfreithlon.

3.7. Felly, mae risg sylweddol o ansefydlogrwydd ariannol difrifol o beidio â chymryd camau cynnar a phenderfynol i ystyried y sefyllfa a chymryd camau adferol.

Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn

3.8. Fel unrhyw sefydliad arall, mae cyfrifoldeb cyllidol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gadw cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Er nad oes fformiwla benodol ar gyfer lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol y dylid eu cadw, fel rheol ystyrir bod lefel o oddeutu 5% o wariant refeniw gros yn lefel ddarbodus, yn amodol ar unrhyw amgylchiadau lleol penodol. Mae'r CATC yn cynnig y dylai'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol gynrychioli 5% o gyllideb refeniw gros y CBC ar gyfer 2027/28.

Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn

3.9. Roedd y CATC a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 25 Medi yn cynnwys pedwar opsiwn o ran faint o'r cronfeydd wrth gefn y disgwylir iddynt fod wedi cronni erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2027/28. Byddai pob un o'r opsiynau hyn yn cael effaith ganlyniadol ar yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddiadol.

3.10. Ar ôl trafodaeth, penderfyniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig oedd i ofyn i swyddogion ddarparu opsiwn hybrid sy'n defnyddio 80% o'r reserfau defnyddiadwy sydd ar gael ar 31 Mawrth 2027 fel sail, a fyddai'n golygu cyflwyno opsiwn sy'n disgyn rhwng opsiwn 3 ac opsiwn 4 i'r Aelodau yng nghyfarfod nesaf y CBC.

3.11. Mae Rhan 7.2 o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (Atodiad 2) yn adlewyrchu'r opsiwn yma a'r oblygiadau ariannol o hynny. Fel y gwelir, byddai'n golygu cynnydd yn y lefi ar yr awdurdodau cyfansoddol o 42% yn 2027/28 o'i gymharu â 2026/27.

4. SYLWADAU'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

4.1. Cyflwynwyd y Strategaeth a'r fersiwn diwygiedig o'r Cynllun drafft, yn dilyn sylwadau'r CBC, i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Hydref 2026. Mae'r sylwadau a fynegwyd gan yr aelodau i'w cael isod.

Y Risg o fethu gosod cyllideb

4.2. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn a'r risg o awdurdodau lleol yn gwrthod talu ardoll yn 2027/28. Eglurodd y Swyddog Adran 151 fod tystiolaeth i ddangos na fyddai modd gosod cyllideb gytbwys heb godi ardoll, a thra ei fod yn annhebygol iawn y byddai'r awdurdodau lleol yn gwrthod codi unrhyw fath o ardoll, petai hynny yn digwydd byddai'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gwario'n anghyfreithiol o 1 Ebrill 2027. Mewn amgylchiadau o'r fath ni fyddai gan y Swyddog Adran 151 ddewis ond cyhoeddi hysbysiad Adran 114.

Effaith diffyg cytundeb ar yr ardoll

4.3. Gofynnwyd am effaith ar y CBC pe bai'r awdurdodau lleol yn methu dod i gytundeb ar yr ardoll. Esboniwyd y bydd dau elfen angen penderfyniad arnynt gan y CBC pan gyflwynir y gyllideb ym mis Ionawr 2027. Y penderfyniad cyntaf sydd ei angen yw cytundeb ar y swm cyfan a godir drwy'r ardoll, a'r ail benderfyniad sydd ei angen yw'r dyraniad gan bob awdurdod lleol. Pwysleisiwyd bod angen penderfyniad unfrydol ar y ddau, sef rhywbeth sy'n heriol ac a fydd yn gofyn am drafodaeth ymlaen llaw. Eglurwyd mai dyma pam mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r CBC yn gynharach yn y cylch cynllunio, er mwyn rhoi digon o amser i'r awdurdodau lleol ac aelodau drafod ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael.

4.4. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynghylch y posibilrwydd damcaniaethol na fyddai'r CBC yn gallu dod i gytundeb ar yr ardoll, cadarnhawyd, unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud a'r ardoll wedi'i gytuno, bod gan bob awdurdod lleol rwymedigaeth gyfreithiol i dalu. Pwysleisiwyd bod y Llywodraeth wedi sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ble mae arweinydd pob awdurdod lleol yn eistedd arnynt fel aelodau, er mwyn caniatáu iddynt benderfynu ar gost resymol o rhedeg y CBC.

4.5. Er bod cynnydd o 42% yn yr ardoll yn amlwg yn cael ei weld gan aelodau'r Is-bwyllgor yn hynod heriol i'w egluro, eglurwyd bod y CBC mewn cyfnod cynnar o'i ddatblygiad, gyda dyletswyddau statudol cynyddol a dim digon o arian i'w ariannu – er enghraifft cyfrifoldebau cynllunio strategol. Er bod y ganran yn sylweddol, mae'n adlewyrchiad o sefyllfa bresennol y CBC ar ei gromlin ddatblygu.

Gwerth am Arian

4.6. Mynegwyd pryder nad yw'r adroddiadau yn cyfeirio at werth am arian, ac nad oes opsiynau i dorri costau yn hytrach na chynyddu gwariant. Cadarnhawyd bod hyn wedi'i ystyried a bod yr holl gostau wedi'u herio gan Cyllid wrth ddatblygu'r CATC, ond pwysleisiwyd bod y CBC ar gam gwahanol yn ei ddatblygiad o gymharu â'r chwe awdurdod lleol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Eglurwyd bod y Llywodraeth hefyd wedi rhoi nifer o gyfrifoldebau statudol ar y CBC heb ddarparu ffynonellau cyllido priodol. Pwysleisiwyd ymhellach fod gan y CBC gyfrifoldeb sylweddol o ran dosbarthu cyllid cyhoeddus a buddsoddi yn economi gogledd Cymru, a byddai

unrhyw doriadau i'r costau am y cam yma yn effeithio ar dwf economaidd a chyfleodd maent yn darparu.

4.7. Darparwyd rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwerth am arian gan y Prif Weithredwr ynglŷn â maint y buddsoddiad yn yr economi leol. Roedd tîm bychan yn darparu gwerth am arian, gyda buddsoddiad o £400m yn economi gogledd Cymru a thua 10,000 o swyddi newydd net ychwanegol i'r economi leol a thua £2bn o fuddsoddiad dros y 10 mlynedd nesaf. Eglurodd fod y tîm bob amser yn anelu at leihau costau gweithredu a chyflawni'n effeithlon, ond roedd gwneud toriadau yn golygu stopio neu oedi'r buddsoddiad.

Strategaeth Cronfeydd

4.8. Mynegwyd gan rai o aelodau'r Is-Bwyllgor mai'r opsiwn sy'n cynnwys y risg lleiaf i'r CBC fyddai cadw cymaint o'r gronfeydd wrth gefn â phosibl, o ystyried bod etholiadau ar y gorwel ac y gallai cyfansoddiad yr arweinwyr ar y CBC fod yn wahanol wedi hynny. Cydnabuwyd gan y swyddogion bod yr opsiynau wedi'u paratoi ar sail y trafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfodydd y CBC ym mis Mehefin a mis Medi, ac ar sail yr arweiniad a roddwyd gan yr aelodau bryd hnny. Cyngor swyddogion yw fod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn falans priodol o gynnal balansau wrth gefn a chadw'r cynnydd yn yr ardoll mor isel â phosib.

Llog

4.9. Mewn ymateb i cwestiwn ynglŷn a'r cyfeiriad at log yn yr adroddiad, eglurwyd bod y llog yn ymwneud ag achosion lle bydd angen benthyca i ariannu prosiectau penodol, a lle bydd gofyn i noddwyr gyfrannu at y costau benthyca pe bai costau'n cynyddu.

Casgliad

4.10. Gan fod yr aelodau'n fodlon efo'r adroddiad, a heb i unrhyw newidiadau sylfaenol gael eu cynnig ganddynt, argymhellwyd y dylid llunio adroddiad yn seiliedig ar y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod hwn, a'i gyflwyno i'r CBC yn ei gyfarfod nesaf er mwyn adlewyrchu barn yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

ATODIADAU:

Atodiad 1:	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Ddrafft 2026/27 – 2029/30
Atodiad 2:	Cynllun Ariannol Tymor Canolig Drafft 2026/27 – 2029/30

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Yn amodol ar y Swyddog Cyllid Statudol fod yn fodlon bod y trosglwyddiadau cyllidebol arfaethedig a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn gyson â'r trefniadau hynny ac ag unrhyw amodau cymwys sy'n gysylltiedig â'r ffrydiau cyllido perthnasol, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol neu lywodraethu penodol sy'n deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.